NEA Cymru
Ymgyrchu Dros Gartrefi Clyd
Campaigning for Warm Homes

Llun 28ain Ebrill 2008

Ymateb i Ymgynghoriad Cymunedau Nesaf Cynulliad Cenedlaethol Cymru

Ymateb i Ymgynghoriadau
Sylwadau gan National Energy Action Cymru

http://wales.gov.uk/caec/report/cabinetstatements/2008/commsnext/080130Communities-w?lang=en

Cyflwyniad

Mae National Energy Action Cymru'n croesawu'r cyfle i wneud sylwadau ar ymchwiliad yr is-bwyllgor i dlodi ac amddifadedd yng nghefn gwlad Cymru. National Energy Action (NEA) yw'r elusen tlodi tanwydd cenedlaethol, gyda phencadlys yn Newcastle upon Tyne, a chynrychiolaeth wladaidd yng Nghymru (NEA Cymru) a Gogledd Iwerddon. Mae NEA wedi bod yn ymwneud yn weithredol gyda'r ymgyrch i gael gwared a thlodi tanwydd yn y DG am dros 25 mlynedd. Rydym yn hyrwyddo datblygiad a hyrwyddiad gwasanaethau effeithlonrwydd ynni i fynd i'r afael a phroblemau gwresogi ac insiwleiddio aelwydydd ar incwm isel.

Daw'r ymgynghoriad hwn ar adeg pan fo'r nifer o aelwydydd Cymraeg mewn tlodi tanwydd wedi dyblu bron ac ar y lefelau uchaf ers degawd o ganlyniad i gostau cynyddol ynni.

Gan nad ydym yn ymwneud yn uniongyrchol gyda manylion Cymunedau'n Gyntaf, nid ydym wedi gwneud sylwadau trwyadl ar gwestiynau ynglŷn â'r rhaglen. Yn hytrach, fe hoffem ddarparu ymateb lefel uchel, yn seiliedig ar ein barn y dylai Cymunedau Nesaf annog partneriaethau i ganolbwyntio'n fwy ar yr effaith y gallant eu cael ar fynd i'r afael â thlodi tanwydd yn eu hardaloedd.

Ymateb i'r Ymgynghoriad

Mae NEA Cymru'n croesawu'r ffocws ar ganlyniadau yn y ddogfen ymgynghori Cymunedau Nesaf. Rydym yn credu bod gan Cymunedau'n Gyntaf y potensial i gefnogi canlyniadau sylweddol yn nhermau helpu i gefnogi pobl sydd ar hyn o bryd yn profi tlodi tanwydd - cartrefi sydd angen gwario mwy na 10 y cant o'u hincwm ar danwydd. Mae ffigyrau Llywodraeth y Cynulliad yn dangos bod rhyw 250,000 o aelwydydd mewn tlodi tanwydd yn 2006; bron i ddwbl y nifer yn 2004. Mae ymchwil Llywodraeth Cynulliad Cymru'n amlygu'r ffaith y bydd 48,000 o aelwydydd pellach yn cael eu gwthio i dlodi tanwydd am bob codiad o 10% mewn costau ynni. O ystyried y cynnydd diweddar mewn prisiau, mae nifer yr aelwydydd yng Nghymru mewn tlodi tanwydd yn siŵr o fod wedi cynyddu ymhellach.

Yn 'Ymrwymiad Tlodi Tanwydd i Gymru' nododd Llywodraeth y Cynulliad mai 2018 oedd y targed ar gyfer cael gwared â thlodi tanwydd, gyda thargedau interim o gael gwared â thlodi tanwydd ymysg grwpiau agored i niwed erbyn 2010 ac ar gyfer tenantiaid tai cymdeithasol erbyn 2012. Mae Cymunedau'n Gyntaf yn un o'r dulliau a nodir yn Strategaeth Tlodi Tanwydd Llywodraeth Cynulliad Cymru ar gyfer cyflawni ei amcanion. O ystyried bod lefelau tlodi tanwydd wedi dyblu bron rhwng 2004 a 2006, rydym yn pryderu na chaiff y targedau hyn eu cyrraedd heb weithredu brys.

Mae cymhellion cryf i weithredu ar dlodi tanwydd mewn ardaloedd Cymunedau'n Gyntaf. Mae costau ynni yn dreth cynyddol ar adnoddau sydd eisoes yn brin, gan waethygu effaith tlodi incwm. Hefyd, derbynnir yn gyffredinol bod byw mewn tŷ sy'n rhy oer yn effeithio ar iechyd a lles pobl; gan gyfrannu at allgau economaidd a chymdeithasol pellach. Mae NEA Cymru'n credu y gall, ac y dylai, Cymunedau'n Gyntaf fod yn beirianwaith effeithiol ar gyfer helpu i gael gwared a thlodi tanwydd. Yn wir, roedd nod ac amcanion gwreiddiol Cymunedau'n Gyntaf yn cynnwys pwyslais ar leihau costau ynni fel modd o gynyddu incwm aelwyd. Fe hoffem weld yr amcan hwn yn cael ei gadw yn Cymunedau Nesaf.

Mae tlodi tanwydd yn faes gyda chwmpas eang ar gyfer "plygu rhaglenni" cyllid a chynlluniau sector cyhoeddus a phreifat. Mae'r cwmnïau ynni'n darparu cyllid sylweddol (er mai'r defnyddiwr sy'n talu yn y pen draw) tuag at nifer o gynlluniau sy'n anelu at effeithlonrwydd ynni a mynd i'r afael â thlodi tanwydd. Yn ein barn ni, gallai, a dylai, partneriaethau Cymunedau'n Gyntaf ddefnyddio'r adnoddau hyn er mwyn gwneud gwahaniaeth i unigolion a chymunedau

Mae Llywodraeth y Cynulliad hefyd yn darparu cyllid sylweddol - tua £25 miliwn y flwyddyn - trwy gyfrwng y Cynllun Effeithlonrwydd Ynni Cartref (HEES). Dyma raglen flaenllaw Llywodraeth y Cynulliad ar gyfer mynd i'r afael â thlodi tanwydd, ond mae NEA Cymru a chyrff eraill sy'n gweithio yn y maes hwn yn pryderu nad yw'n targedu'n ddigonol y rhai hynny sydd fwyaf mewn angen. Yn arbennig, llai na thraean o'r bobl sy'n cael budd o HEES sydd mewn gwirionedd yn dioddef o dlodi tanwydd. Mae NEA Cymru wedi dadlau bod angen i HEES gael ei hyrwyddo'n fwy gweithredol a'i dargedu at y grwpiau tlotaf a mwyaf agored i niwed. Gallai Cymunedau'n Gyntaf ddarparu peirianwaith ar gyfer targedu'r adnoddau sylweddol hyn yn fwy effeithiol at yr aelwydydd a chymunedau mwyaf difreintiedig.

Fodd bynnag, nid gydag adnoddau yn unig y mae mynd i'r afael â thlodi tanwydd. Mae nifer o fesurau y gall aelwydydd eu cymryd i leihau eu biliau tanwydd. Fel gyda meysydd eraill, fel bwyta'n iach, mae'r neges lefel uchel wedi ei thraddodi ar y cyfryngau, ond mae lle sylweddol i ymwneud yn fwy uniongyrchol gyda phobl i symleiddio ac atgyfnerthu'r neges. Rydym yn credu y gallai Cymunedau'n Gyntaf fod yn ffordd ardderchog o addysgu pobl ynglŷn â'r effaith y gall gwell effeithiolrwydd ynni ei gael ar eu lles ariannol.

I grynhoi, fe hoffem weld Cymunedau Nesaf yn cadw ffocws penodol ar fynd i'r afael â thlodi tanwydd. Mae gan NEA Cymru nifer o awgrymiadau ymarferol ynglŷn â sut i fynd ymlaen gyda hyn, a byddai'n croesawu'r cyfle i weithio'n agosach gyda Cymunedau Nesaf wrth iddo ddatblygu yn y dyfodol.